



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

# Datganiad Ilesiant 2017

---

Ffyniant i Bawb: y strategaeth **genedlaethol**

# Cynnwys

---

1

Cyflwyniad  
Tudalen 3

6

Amcanion y llywodraeth ar gyfer 2016  
Tudalen 12

2

Cefndir y gwaith hwn  
Tudalen 4

7

Llywodraethu ac adnoddau  
Tudalen 15

3

Y dull gweithredu  
Tudalen 6

8

Cynllunio, monitro ac adrodd  
Tudalen 17

4

Llywodraeth Cymru a'r nodau  
llesiant ar gyfer Cymru  
Tudalen 7

9

Atodiad A: Arfarnu ein hamcanion  
(Tachwedd 2016 i Fedi 2017)  
Tudalen 19

5

Gweithio mewn ffordd gynaliadwy  
Tudalen 8

# 1 Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn amlinellu amcanion llesiant diwygiedig Llywodraeth Cymru. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, sy'n pennu'r rhesymeg ar gyfer ein hamcanion a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.**

Strategaeth drawslywodraethol yw **Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol** i'n helpu ni a'n partneriaid i sicrhau bod egni ac adnoddau'r sector cyhoeddus cyfan yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol. Mae ffyniant yn fwy na chyfoeth materol yn unig – mae'n ymwneud â sicrhau bod gan bob un ohonom ansawdd bywyd da, a'n bod yn byw mewn cymunedau cryf a diogel. Mae'r strategaeth genedlaethol yn pennu amcanion y llywodraeth hon ac yn darparu eglurder ar gyfer ein partneriaid ynglŷn â'r newidiadau rydym am eu gwneud yng Nghymru a sut rydym am i'r llywodraeth a'n partneriaid gyfrannu at ddull gweithredu newydd.

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod ein dulliau gweithredu yr un mor bwysig â'r hyn rydym yn ei gyflawni. I wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl, a'r cyfraniad mwyaf posibl at y saith nod llesiant, mae angen i ni weithredu'n wahanol. Mae cyfraith Cymru, drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), yn darparu llwyfan cyffredin i 43 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru allu gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Yn y strategaeth rydym yn nodi deuddeg amcan y llywodraeth a'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. Amcanion llesiant diwygiedig yw'r rhain, sy'n disodli'r amcanion cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016.

Diben y ddogfen hon yw:

- **egluro** pam rydym yn ystyried y bydd cyflawni'r amcanion llesiant yn y strategaeth genedlaethol yn cyfrannu at y saith nod llesiant ar gyfer Cymru;
- **egluro** pam rydym yn ystyried eu bod wedi'u pennu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- **cyflwyno'r** camau rydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni ein hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor;
- **egluro** sut rydym yn bwriadu rheoli ein hunain er mwyn cyflawni ein hamcanion;
- **egluro** sut y byddwn ni'n adolygu'r camau;
- **egluro** sut y byddwn ni'n cynnwys pobl;
- **egluro** sut y byddwn ni'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu bob blwyddyn er mwyn rhoi'r camau ar waith;
- **nodi** faint o amser fydd ei angen i gyflawni'r amcanion.

Cyhoeddir y datganiad hwn o dan adran 7 ac 8 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae **Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol ar gael yn** <http://llyw.cymru/rhaglenlywodraethu>

## 2 Cefndir y gwaith hwn

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant i wneud Cymru'n wlad lewyrchus, cydnerth, iachach, mwy cyfartal a chyfrifol ar lefel byd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Ni ellir gwahanu'r nodau llesiant hyn, ac maent yn egluro ystyr llesiant Cymru.

Mae'r Ddeddf yn creu diben cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith – y saith nod llesiant – ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae'n nodi sut y dylai'r cyrrff hyn weithio, a chydweithio er mwyn gwella llesiant Cymru.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer gwella'r broses o wneud penderfyniadau drwy sicrhau bod y cyrrff cyhoeddus perthnasol yn ystyried yr hirdymor, yn gweithio i sicrhau nad yw problemau'n codi neu'n gwaethygu, yn gweithio mewn ffordd integredig a chydweithredol, ac yn ystyried ac yn cynnwys pobl.

Gyda'i gilydd, amcan y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf yw cefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

### Y Nodau Byd-eang (2015)

Nid dim ond ni sy'n ceisio gwneud pethau'n wahanol. Ar 1 Ionawr 2016, aeth arweinwyr y byd ati'n swyddogol i weithredu Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy – y cynllun gweithredu trawsffurfiol sy'n seiliedig ar 17 Nod Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Bydd Cymru'n cyfrannu at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy drwy'r Ddeddf.



## Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

Mae **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021** yn nodi'r pedwar maes lle y gall Llywodraeth Cymru wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl Cymru wrth geisio cyflawni'r nodau cenedlaethol, nawr ac yn y dyfodol.

Ein nod yw creu Cymru sy'n:


- ffyniannus a diogel;
- iach ac egniol;
- uchelgeisiol ac yn dysgu;
- unedig a chysylltiedig.

Ym mis Tachwedd 2016 aethom ati i gyhoeddi set gychwynnol o amcanion llesiant i gyfrannu at y saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Cafodd yr amcanion hyn eu profi a'u datblygu wedyn fel rhan o waith y strategaeth.

## Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol (2017)

Ar 19 Medi cyhoeddwyd **Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol**. Mae'r strategaeth yn gosod ymrwymiadau allweddol Symud Cymru Ymlaen mewn cyd-destun hirdymor, gan nodi sut y maent yn cyd-fynd â gwaith y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

## Yr Amcanion Llesiant



## Y Themâu Allweddol

### 'Ffyniant i Bawb' - y strategaeth genedlaethol

Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni dros Gymru yn ystod y tymor hwn - ac yn gosod sylfeini hirdymor ar gyfer y dyfodol.

### 'Symud Cymru Ymlaen' - Y Rhaglen Lywodraethu 2016-2021

Mae'r rhaglen yn amlinellu'r hyn y byddwn yn ei gyflawni dros Gymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn.



## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Ddeddf yn nodi'r angen am ffocws hirdymor, a phum 'ffordd o weithio' er mwyn rhoi arweiniad i wasanaethau cyhoeddus Cymru wrth iddynt gyflawni dros bobl Cymru.

## 3 Y dull gweithredu

Mae cyhoeddi **Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol** yn arwydd o ddull gweithredu newydd sy'n sylfaen i'n holl waith yn ystod tymor y llywodraeth hon.

Pan gyhoeddwyd **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**, gwnaethom sylweddoli bod angen gweithio ar draws ffiniau traddodiadol a dod o hyd i ffyrdd o sicrhau ein bod ni a'n holl bartneriaid yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Roeddem yn cydnabod bod y broses lywodraethu'n cynnwys gwneud dewisiadau anodd; ac mae'r cyni parhaus a'r ffaith bod y Deyrnas Unedig am adael yr Undeb Ewropeaidd yn heriau pellach. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd hynny lle y gallwn ddefnyddio'r pwerau a'r dulliau sydd gennym i gael yr effaith fwyaf a gwneud y cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant.

Rydym wedi defnyddio gwybodaeth am Gymru a'i phobl, ac am y tueddiadau ehangach sy'n effeithio ar economi, cymdeithas, amgylchedd a diwylliant Cymru er mwyn deall yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae'r wybodaeth hon yn amlygu'r materion y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw, a'r meysydd y dylem fel llywodraeth ganolbwyntio arnynt er mwyn cael effaith. Ceir tystiolaeth o ffynonellau trawsbynciol sy'n darparu gwybodaeth ar lefel genedlaethol, gan gynnwys:

- cyfrifiad o'r boblogaeth;
- Arolwg Cenedlaethol Cymru;
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;
- adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol;
- Dangosyddion Cenedlaethol Cymru (yn mesur y saith nod llesiant);
- asesiadau o lesiant lleol gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd angen i ni wneud y canlynol er mwyn datblygu'r strategaeth:

1. Deall ein perthynas â saith **nod llesiant** Cymru (gweler adran 4);
2. Deall y cyd-destun **presennol ac yn y dyfodol** ar gyfer Cymru;
3. Datblygu ein gwaith yng nghyd-destun y Rhaglen Lywodraethu, **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021** a'r amcanion llesiant cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016;
4. **Adolygu a diwygio** ein hamcanion llesiant er mwyn creu un set o amcanion ar gyfer y llywodraeth i lywio ein gwaith ein hunain a'n gwaith gyda phartneriaid cyflenwi, gan sicrhau bod y Ddeddf yn ganolog i'r llywodraeth (gweler adran 6);
5. Ymgysylltu â phartneriaid cyflenwi (gweler adran 5);
6. Datblygu dull strategol o **arfarnu** ein gwaith yng nghyd-destun ein hymrwymyiadau cyfreithiol a pholisi;
7. Nodi'r **camau** rydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni ein hamcanion;
8. Datblygu ein dulliau o weithio'n wahanol

## 4 Llywodraeth Cymru a'r nodau llesiant ar gyfer Cymru


**Mae ein cyfraniad at y nodau llesiant yn adlewyrchu'r meysydd rydym yn gyfrifol amdanynt, a'r meysydd y gallwn ddylanwadu arnynt fwyaf fel llywodraeth a gyda'n partneriaid cyflenwi. Mae ein hamcanion llesiant a'n camau arfaethedig wedi'u cynllunio yn y cyd-destun hwn.**

Caiff Llywodraeth Cymru ei hethol gan bobl Cymru i roi rhaglen lywodraethu ar waith. Mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau a gweithredu yn y meysydd hynny sydd wedi'u datganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a deddfwriaeth berthnasol arall. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- ddatblygu polisiâu a'u rhoi ar waith;
- trefnu a llywio darpariaeth a llywodraethu yn y meysydd allweddol hyn, megis llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru;
- cynnig cyfreithiau i Gymru (Biliau'r Cynulliad) a chreu is-ddeddfwriaeth (e.e. rheoliadau a chanllawiau statudol);
- ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r meysydd sydd wedi'u datganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a deddfwriaeth berthnasol arall yn pennu'r cwmpas ar gyfer ein cyfraniad at y nodau llesiant. Er bod y saith nod llesiant wedi'u cynllunio i bontio'r cenedlaethau, mae Llywodraeth Cymru wedi'i hethol i wasanaethu am un tymor. O ganlyniad, mae angen i ni sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i wella llesiant Cymru a'i phobl rhwng 2016 a 2021 a'r angen i gyfrannu at y Gymru a Garem erbyn 2050.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gwneud y cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant, rydym wedi nodi'r meysydd lle y gall defnyddio ein pwerau a'n dulliau ysgogi sicrhau gwelliant gwirioneddol dros dymor y llywodraeth hon, a lle y gall camau cyfunol ledled y llywodraeth a gyda'n partneriaid wneud y gwahaniaeth mwyaf.



## 5 Gweithio mewn ffordd gynaliadwy

**Mae Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol yn cynrychioli ymrwymiad i ddull gweithredu newydd: dull sy'n cydnabod yr heriau sy'n ein hwynebu heddiw, y Gymru a garem yn y dyfodol, a'r camau y mae angen eu cymryd i wireddu hynny.**

Mae'n rhaid i ni weithio mewn ffordd wahanol er mwyn symud Cymru ymlaen mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y boblogaeth bresennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Ddeddf yn nodi pum dull gweithredu allweddol y mae angen i ni, a 43 o gyrff cyhoeddus eraill, eu hystyried. Bu'r dulliau gweithredu hyn yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth a nodi set o amcanion ar gyfer y llywodraeth.



**Cydweithio**



**Integreiddio**



**Cynnwys**



**Hirdymor**



**Atal**

### Mabwysiadu dull gweithredu integredig

Mae'n rhaid i ni weithio mewn ffordd newydd er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n ein hwynebu, gan gynnwys cynnal rhaglenni cydgysylltiedig sy'n atgyfnerthu ac yn datblygu'r hyn y mae pobl a chymunedau yn ei wneud drostynt eu hunain.

Mae nodweddion allweddol y dull gweithredu hwn yn cynnwys:

- Ymrwymiad cynnar i ddatblygu dull gweithredu trawsbynciol fel rhan o waith y strategaeth.
- Cydnabod bod llywodraeth yn gymhleth a'i bod yn bwysig integreiddio polisïau yn fwy.
- Gweithredu ar sail cwrs bywyd, gan gydnabod nad yw pobl yn byw eu bywydau yn ôl ffiniau polisi na'r gwasanaethau cyhoeddus y maent yn eu derbyn.
- Deall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.
- Newid i 'ddull gweithredu llywodraeth gyfan' sy'n cynnwys amcanion integredig a meysydd blaenoriaeth.
- Nodi camau gweithredu sy'n ymwneud â gweithio mewn ffordd fwy integredig (e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, trafnidiaeth gyhoeddus).
- Canolbwyntio ar bum maes blaenoriaeth er mwyn helpu i integreiddio'r gwasanaethau a'r rhaglenni hyn yn well.



## Ystyried yr hirdymor

Trwy **Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol** byddwn yn gweithio gyda phobl Cymru ac yn ymdrechu gyda'n gilydd i ymateb i'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r genedl.

Mae'r strategaeth genedlaethol ac amcanion y llywodraeth yn cydnabod yr heriau hyn, gan gynnwys yr heriau sy'n wynebu unigolion. Mae'r strategaeth yn nodi pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac y gall hynny gael effaith hirdymor ar fywydau pobl.

Mae nodweddion allweddol y dull gweithredu hwn yn cynnwys:

- Deall y cefndir presennol o gyngor parhaus a'r ffaith fod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.
- Datblygu adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yng Nghymru er mwyn ein helpu i ddeall yn well y tueddiadau hirdymor sy'n effeithio ar Gymru a'i phobl.
- Casglu gwybodaeth o'r asesiadau o lesiant lleol gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd hefyd yn ystyried y sefyllfa hirdymor.
- Nodi'r heriau hirdymor sy'n wynebu Cymru a'i phobl.
- Nodi pum maes a ddaeth i'r amlwg fel y meysydd a all wneud y cyfraniad mwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor.

## Cynnwys pobl

Mae'r strategaeth wedi adeiladu ar **Symud Cymru Ymlaen 2016-21** a gwaith Llywodraeth Cymru i gynnwys pobl yn y gwasanaethau a'r polisiâu sy'n bwysig iddynt. Bydd yn parhau i fod yn rhan o'n dull gweithredu wrth i ni lunio ein hymateb yn y pum maes blaenoriaeth.

Mae nodweddion allweddol y dull gweithredu hwn yn cynnwys:

- Trafodwyd y gwaith ar y strategaeth fel rhan o ddeialog barhaus â phartneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid. Bydd hyn yn datblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.
- Roedd y syniadau a ddeilliodd o'r asesiadau o lesiant lleol gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r gwaith dilynol yn ymwneud ag amcanion llesiant gan gyrrff cyhoeddus, yn bwysig er mwyn deall y materion cynaliadwyedd ar lefel leol a'r blaenoriaethau ar gyfer cyrff cyhoeddus.
- Gwaith ymgysylltu'r Ysgrifennydd Parhaol â dros 1,000 o staff ar draws Llywodraeth Cymru - bydd y drafodaeth hon yn parhau wrth i ni symud ymlaen i weithredu.
- Mae gwaith Tasglu'r Cymoedd a'i ddull arloesol o gynnwys pobl yn darparu gwybodaeth am y ffordd orau o ymgysylltu â dinasyddion ynghylch y materion sy'n effeithio arnynt.

Rydym yn bwriadu datblygu'r gwaith hwn a chreu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig o gynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori â phobl, gan adlewyrchu bwriad y strategaeth genedlaethol. Bydd hyn yn adeiladu ar egwyddorion sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer gweithio gyda chymunedau ac ymgysylltu â nhw, megis yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

## Cydweithredu

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'i phartneriaid cyflenwi i wella llesiant Cymru a'i phobl. O ganlyniad i lawer o'r amcanion a'r camau a nodir yn y strategaeth, bydd angen i'n partneriaid newid yr hyn y maent yn ei wneud, ac mewn rhai achosion addasu eu camau gweithredu i gyd-fynd ag amcanion y llywodraeth. Wrth wraidd y strategaeth hon ceir cydnabyddiaeth bod gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector eisiau cydweithio i gyflawni amcanion cyffredin, gan ganolbwyntio ar anghenion pobl ym mhob cyfnod o'u bywydau ac ym mhob rhan o Gymru.

Mae nodweddion allweddol y dull gweithredu hwn yn cynnwys:

- Cydnabod bod rhwystrau i gydweithio yn bodoli, ac ymrwymo i'w dileu er mwyn sicrhau ffordd ffordd well o weithio.
- Datblygu gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel modd o gydweithio â phartneriaid allweddol, a'u cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau llesiant lleol.
- Cydnabod bod angen gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, cydweithwyr, prifysgolion, busnesau a'r trydydd sector er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng sgiliau a chyfleoedd.
- Nodi camau gweithredu sy'n mabwysiadu dulliau cydweithredol gan bob asiantaeth berthnasol (e.e. hybu ffordd o fyw iachach, cyrhaeddiad addysgol, model darparu gofal arloesol).
- Canolbwyntio ar bum maes blaenoriaeth er mwyn helpu i integreiddio gwasanaethau cyhoeddus a rhaglenni'n well, gan roi cyfeiriad clir i'n partneriaid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hyrwyddo'r trydydd sector a'i gyfraniad at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor Cymru, ei phobl a'i chymunedau. Mae Adroddiad Blyneddol 2015-16 Cynllun y Trydydd Sector yn darparu trosolwg o ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r trydydd sector yn 2015-16, ac mae'n edrych ymlaen at 2016-17.

Yn ystod y broses o ddatblygu'r strategaeth, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar Bapur Gwyn a oedd yn cyflwyno perthynas newydd rhwng y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Perthynas lle ceir cyd-ddealltwriaeth a chydabyddiaeth o rolau a buddiannau'r naill a'r llall, a lle chaiff yr holl bartneriaid gyfle i gael y dylanwad cadarnhaol mwyaf posibl drwy weithio gyda dinasyddion ar agendâu a gytunir gan bawb. Y Ddeddf wnaeth osod y cyd-destun ar gyfer y Papur Gwyn, ac mae'n cydnabod bod gan gymunedau lleol, awdurdodau lleol, cyrff rhanbarthol a llywodraethau cenedlaethol gyfraniad dilys i'w wneud at 'lunio lleoedd'.

Rydym hefyd yn ystyried sut y gellir sicrhau bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich yn gallu adlewyrchu egwyddorion y Ddeddf yn well.

Mae'r cyrff cyhoeddus sy'n gorfod cydymffurfio â'r Ddeddf wedi cyhoeddi eu hamcanion llesiant, sy'n egluro'r cyfraniad y gallant ei wneud at y nodau llesiant. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cydweithio ledled y sector cyhoeddus, ac rydym yn ymgysylltu â chyrff i archwilio'r cyfleoedd hyn.

## Atal

Nod ein hamcanion llesiant yw atal problemau rhag codi neu sicrhau nad ydynt yn gwaethygu. Maent yn cynrychioli'r meysydd lle mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i ddileu rhwystrau, canolbwyntio ar y broses o drosglwyddo rhwng gwasanaethau a deall anghenion newidiol pobl ar adegau gwahanol o'u bywydau, nawr ac yn y dyfodol, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Mae nodweddion allweddol y dull gweithredu hwn yn cynnwys:

- Canolbwyntio'n gliriach ar atal afiechyd, gwella cadernid emosiynol a lleihau lefelau digartrefedd.
- Cydnabod bod gwaith atal yn gwneud cyfraniad mawr at osgoi problemau, a bod angen gweithredu'n gyflym i ddarparu rhwyd ddiogelwch gadarn a helpu i godi pobl ar eu traed drachefn cyn gynted â phosibl.
- Nodi'r meysydd blaenoriaeth lle mae wedi dod i'r amlwg bod ymyrryd yn gynnar – mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau yn hytrach na thrin y symptomau – yn llwyddo.
- Cydnabod bod rhwystrau rhwng gwasanaethau a sefydliadau gwahanol yn golygu, yn rhy aml o lawer, nad oes modd rhoi dull gweithredu gwirioneddol ataliol ar waith.
- Ymrwymiad i gymryd camau sylweddol i newid ein dull gweithredu o drin problemau i atal problemau.

## 6 Amcanion y llywodraeth ar gyfer 2016-2021

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfraniad allweddol i'w wneud at helpu Cymru i wneud cynnydd tuag at fod yn wlad lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal a chyfrifol ar lefel fyd-eang, ac yn wlad sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

### Ein hamcanion llesiant cychwynnol

Ym mis Tachwedd 2016 cyhoeddwyd ein hamcanion llesiant cychwynnol, ac fe wnaethom ymrwymo i'w hadolygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth genedlaethol. Mae'r amcanion llesiant diwygiedig yn darparu un set o amcanion trawslywodraetholl sy'n ganolog i'r llywodraeth, ac maent yn gyfle gwirioneddol i helpu i roi'r Ddeddf ar waith.

### Adolygu a diwygio ein hamcanion llesiant

Roedd y gwaith o ddatblygu **Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol** yn gyfle i brofi'r amcanion llesiant.

Yn ôl yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid ar y set o amcanion cychwynnol, roeddent am weld llai o amcanion, eu blaenoriaethu'n well a gwybodaeth am y camau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd. Roedd llawer hefyd yn awyddus i sicrhau nad oedd yr amcanion llesiant yn cael eu hystyried yn amcanion 'atodol' ond eu bod yn ganolog i'r llywodraeth. Mae hyn yn adlewyrchu bwriad y ddeddfwriaeth, y daith yng Nghymru drwy'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy flaenorol, a'r ymrwymiad i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn un o egwyddorion canolog y sefydliad.

Aethom ati i ystyried a fyddai nifer llai o amcanion yn fanteisiol. Ond, o ystyried amrywiaeth y cyfrifoldebau sydd gan y llywodraeth, roeddem eisiau sicrhau bod manteision sefydlu'r Ddeddf yn cyrraedd pob rhan o'r llywodraeth, gan adlewyrchu'n llawn uchelgais drawsbynciol y llywodraeth hon.

### Amcanion llesiant

Mae'r strategaeth genedlaethol yn cynnwys 12 amcan ar gyfer y llywodraeth. Ein **hamcanion llesiant** diwygiedig yw'r rhain ac maent wedi'u pennu ar gyfer gweddill y cyfnod 2016-2021 (tymor y llywodraeth hon).

Dyma'r amcanion llesiant:

- 01** Cefnogi pobl a busnesau i hybu ffyniant
- 02** Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg
- 03** Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- 04** Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol
- 05** Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- 06** Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell
- 07** Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial
- 08** Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw
- 09** Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid
- 10** Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth
- 11** Darparu seilwaith modern a chysylltiedig
- 12** Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

Mae Atodiad A yn cynnwys cymhariaeth ag amcanion llesiant 2016.

## Ein camau gweithredu arfaethedig

Mae camau unigol rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith yn cyd-fynd â phob amcan. Mae'r 12 amcan llesiant yn cynnwys camau gweithredu penodol. Nid ydynt yn cael eu hailadrodd eto yn y ddogfen hon.

Darllenwch y ddogfen **Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol** i weld y camau unigol. Mae'r ddogfen ar gael yn

<http://llyw.cymru/rhaglenlywodraethu>.

## Gwneud y cyfraniad mwyaf posibl

Mae'r amcanion llesiant a'r camau rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn eu cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r sail resymegol ategol i'w gweld yn y ddogfen **Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol**.

Mae ein hamcanion llesiant yn canolbwyntio ar Gymru sy'n iach ac egniol, yn ffyniannus a diogel, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig. I gyflawni hyn, mae meysydd polisi trawslywodraethol ychwanegol wedi dod i'r amlwg fel rhai a allai gyfrannu fwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor: y Blynyddoedd Cynnar, Iechyd Meddwl, Sgiliau a Chyflogadwyedd, Tai a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r tabl isod yn dangos ym mha feysydd y credwn bod ein hamcanion llesiant yn gwneud prif gyfraniad at bob un o'r nodau llesiant a'r disgrifiad cysylltiedig, er y byddwn yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at amrywiaeth eang o amcanion. Bydd y berthynas hon a'r tabl cysylltiedig yn datblygu wrth i ni gyflawni'r amcanion.

Tabl 1 : Cyfraniad Llywodraeth Cymru at y nodau llesiant

Nod 1	Nod 2	Nod 3	Nod 4	Nod 5	Nod 6	Nod 7
Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru sy'n Fwy Cyfartal	Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu	Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Amcanion llesiant wedi'u diweddarau Llywodraeth Cymru

		Prif gyfraniad						
		1	2	3	4	5	6	7
Llewrchus a Diogel	<b>01</b> Cefnogi pobl a busnesau i hybu ffyniant	■	●	●	●	●	●	●
	<b>02</b> Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg	■	●	●	■	●	●	●
	<b>03</b> Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd	■	■	●	●	●	●	■
Iach ac Egniol	<b>04</b> Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol	●	●	■	●	●	●	●
	<b>05</b> Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb	●	●	■	■	■	●	●
	<b>06</b> Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell	●	■	■	■	■	●	●
Uchelgeisiol ac yn Dysgu	<b>07</b> Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial	■	●	■	■	■	■	■
	<b>08</b> Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw	■	●	●	■	●	●	●
	<b>09</b> Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid	■	●	●	■	■	●	■
Unedig a Chysylltiedig	<b>10</b> Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth	●	●	●	●	■	■	●
	<b>11</b> Darparu seilwaith modern a chysylltiedig	■	■	●	●	■	●	■
	<b>12</b> Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd	■	●	●	●	●	■	■

## 7 Llywodraethu ac adnoddau

**Mae'r llywodraeth yn canolbwyntio bellach ar roi'r strategaeth genedlaethol ar waith.**

### Prif egwyddor drefniadol

Yn unol â'r hyn a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru ac sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, datblygu cynaliadwy yw egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cymru o hyd. Mae hyn yn ymwneud â sut mae'r sefydliad yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i 'Sut ydym yn gweithio' yn <http://gov.wales/about/civilservice/how-we-work/?lang=cy>

### Llywodraethu

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru ac mae'n gyfrifol am amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu arweiniad ar lefel swyddogol er mwyn rhoi'r strategaeth genedlaethol ar waith yn y sefydliad. Mae hi wedi rhoi gwybod i holl staff Llywodraeth Cymru bod y broses o weithio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf yn bwysig iddi. Mae hi wedi sicrhau bod mecanweithiau ar waith ar lefel uwch er mwyn cydgyssylltu gweithgareddau ac adrodd yn ôl i'w Bwrdd.

Mae Cyfrifon Cyfunol 2016-2017 Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn cael ei llywodraethu, gan gynnwys manylion am y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n sylfaen i'r broses o gyfarwyddo a rheoli Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon ar gael yn <http://gov.wales/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/ourfinance/welsh-government-consolidated-accounts/?lang=cy>. Bydd y trefniadau llywodraethu yn esblygu wrth i'r

Ddeddf gael ei sefydlu – mae hyn yn cynnwys rôl y Bwrdd, systemau, prosesau a dulliau gweithredu. Bydd gwaith gyda phartneriaid cyflenwi yn hanfodol i gyflawni'r amcanion llesiant.

### Adnoddau

#### Pobl

Y gwasanaeth sifil yw'r weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cefnogi Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Disgwylir i weision sifil, ymysg pethau eraill, sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ganolog i'w holl waith, gan ganolbwyntio ar wella llesiant Cymru.

Mae menter newydd sy'n diogelu'r system ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaeth sifil cadarn, medrus a chynaliadwy ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod gan y gwasanaeth yr adnoddau priodol i gefnogi Gweinidogion a'u helpu i gyflawni eu hamcanion. Nod y fenter yw sicrhau bod galluogrwydd, hyder, arweinyddiaeth a chadernid ar waith er mwyn ymateb i heriau eithriadol y dyfodol a gosod sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol. Bydd angen i weision sifil ar bob lefel ddatblygu diwylliant cynhwysol sy'n perfformio i safon uchel ac sy'n wirioneddol gydweithredol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau – gan adlewyrchu'r ymrwymiad i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae rhaglenni dysgu a datblygu'n cael eu diweddarau er mwyn sicrhau y buddsoddir yn y sgiliau priodol; bod dulliau gweithredu mwy arloesol a rhagweithiol yn cael eu harchwilio ar gyfer cyfnewid a secondiadau; bod trefniadau'n cael eu hystyried ar gyfer camu ymlaen mewn gyrfa; a bod prosesau rheoli perfformiad ac arfarnu yn cael eu gwella. Mae'r gwaith o ddiogelu'r system ar gyfer y dyfodol yn broses hirdymor a bydd yn cael ei wella'n barhaus yn ystod 2017-18 a thu hwnt.

## Cyllideb

Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb flynyddol o tua £14 biliwn net £1.8 biliwn o incwm. Mae adroddiad Cyfrifon Cyfunol 2016-17 Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd fis diwethaf, yn darparu gwybodaeth am sut mae'r llywodraeth yn dyrannu ei hadnoddau.

Gan fod cyllidebau'n lleihau, mae'n bwysicach nag erioed i ni fanteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i ni er mwyn cyflawni ein hamcanion. Fe wnaethom gydnabod ar y pryd y byddai cynnwys egwyddor y Ddeddf wrth gynllunio ein Cyllideb yn broses esblygol a fyddai'n datblygu dros nifer o flynyddoedd.

Rydym wedi ceisio cryfhau'r gwaith o baratoi ein Cyllideb eleni er mwyn sicrhau bod effaith y Ddeddf yn cynyddu. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys trafodaethau Gweinidogol ym mhob cam o'r broses o gynllunio'r gyllideb, gan ystyried y pum ffordd o weithio er mwyn datblygu cynlluniau gwario manwl ar gyfer portffolios.

Rydym wedi datblygu ein cynlluniau ar gyfer Cyllideb Drafft 2018-19 o safbwynt y llywodraeth gyfan er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n cyfateb i'r strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb – y strategaeth genedlaethol, gan fanteisio ar gyfleoedd i gydgyssylltu gweithgareddau ar draws portffolios a rhaglenni er mwyn cyflawni ein hamcanion. Bydd gwybodaeth am ddyraniadau cyllidebau penodol yn cael ei chynnwys yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull o gyllidebu i sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu bodloni heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Rydym yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y goblygiadau ymarferol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd cyllidebu cyfranogol, datgarboneiddio a chaffael.

## Cynnydd hyd yn hyn

Mae'r newidiadau mewn ymateb i'r Ddeddf yn cynnwys:

- **Ymwybyddiaeth** – cyflwynwyd ymgyrch ymwybyddiaeth ar gyfer yr holl staff cyn i'r ddyletswydd ddod i rym.
- **Rhannu** – rhannwyd ein profiad o ddatblygu amcanion a chymau gweithredu â chyrrff cyhoeddus eraill y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt.
- **Cymorth** – darparwyd cymorth i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i baratoi eu hasesiadau llesiant lleol.
- **Cynllunio busnes** – rydym wedi gwella sut mae timau'n cynllunio, yn rheoli, yn monitro ac yn adrodd ar y gwaith y maent yn ei wneud er mwyn sicrhau cydlyniant ac integreiddio gwell, a deall y cysylltiad â'r nodau llesiant yn well a sut mae'r pum ffordd o weithio yn gallu helpu timau i gynllunio eu gwaith.
- **Rheoli perfformiad** – rydym wedi newid y trafodaethau ar reoli perfformiad rhwng staff a rheolwyr llinell er mwyn gwella'r cysylltiad ag amcanion y llywodraeth a'r nodau llesiant.
- **Effaith integredig** – rydym wedi datblygu dull mwy integredig a strategol o arfarnu effaith ein gwaith, gan ddefnyddio'r nodau llesiant a'r dulliau gweithredu fel fframwaith defnyddiol.
- **Llythyrau cylch gwaith** – rydym wedi ystyried sut y gellir defnyddio llythyrau cylch gwaith i hyrwyddo'r newid sydd ei angen gan y Ddeddf.
- **Perthynas â chyrrff hyd braich** – rydym wedi ystyried sut y gellir defnyddio llythyrau cylch gwaith i hyrwyddo'r newid sydd ei angen gan y Ddeddf.

Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod y Ddeddf yn rhan annatod o'n dulliau gweithio. Bydd hyn yn datblygu dros amser wrth i gyfleoedd newydd ddod i'r amlwg.



## 8 Cynllunio, monitro ac adrodd

Mae strategaeth ac amcanion cysylltiedig y llywodraeth yn sail i bopeth y byddwn yn ei wneud yn ystod tymor y llywodraeth hon. Mae'n creu un fframwaith ar gyfer profi a llywio ein penderfyniadau, gan alluogi model gwirioneddol o weithio trawslywodraethol

Mae Llywodraeth Cymru yn gwella sut mae timau yn cynllunio, **yn rheoli, yn monitro ac yn adrodd** ar eu gwaith er mwyn sicrhau cydlyniant ac integreiddio gwell, sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant, a dangos sut mae'r pum ffordd o weithio'n gallu helpu timau i gynllunio a gwneud eu gwaith.

### Cynllunio

Mae'r modd y mae'r gwasanaeth sifil yn cynllunio ei waith yn gyfle i wella'r integreiddio ar draws y llywodraeth, gan sicrhau cysondeb a chydweithredu. Mae hefyd yn gyfle i wreiddio'r ffyrdd o weithio a newid sut mae timau'n blaengynllunio eu gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi newid ei dulliau o gynllunio busnes er mwyn helpu i gyflwyno'r Ddeddf. Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol, bydd y newidiadau'n helpu i sicrhau cysondeb wrth gyflwyno'r strategaeth a'r amcanion a'r camau llesiant cysylltiedig. Bydd hyn yn helpu i nodi cyfleoedd ledled y llywodraeth yn well a sicrhau bod ein darpariaeth yn fwy cydlynol.

### Monitro

Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro'r camau sy'n cael eu cymryd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant fel rhan o'r gwaith ar y strategaeth drwy ddefnyddio systemau presennol, cynlluniau busnes, tystiolaeth a gwerthuso.

### Adrodd

Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn gyson ar unrhyw lwyddiannau wrth iddynt ddigwydd, yng nghyd-destun y strategaeth genedlaethol. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i leihau nifer y dangosyddion perfformiad sy'n cael eu casglu er mwyn newid y berthynas â llywodraeth leol, a dylai hyn fod yn berthnasol i sut mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar berfformiad hefyd.

### Parhau i adolygu'r amcanion

Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwmo i adrodd ar gynnydd yn rheolaidd. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i ddarparu tystiolaeth o effaith ein gwaith, a bydd yn adolygu'r strategaeth genedlaethol ganol y tymor er mwyn parhau i adolygu'r amcanion.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddefnyddio dulliau gwerthuso er mwyn cadarnhau a yw polisiâu a rhaglenni'n effeithiol ac yn darparu gwerth am arian.

## Mesur cynnydd Cymru yn erbyn y nodau

### Dangosyddion Cenedlaethol Cymru

Ym mis Mawrth 2016 cyflwynwyd 46 o ddangosyddion perfformiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Eu bwriad yw mesur y cynnydd sy'n cael ei wneud ar lefel genedlaethol yn erbyn y saith nod llesiant. Er bod y dangosyddion yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru, maent yn adlewyrchu Cymru gyfan, a byddant yn ein galluogi i ddeall cyfraniad pawb.

Nid yw Dangosyddion Cenedlaethol Cymru yn mesur perfformiad sefydliad penodol fel Llywodraeth Cymru, ond gallant ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth gyd-destunol berthnasol ar gyfer amcanion llesiant Llywodraeth Cymru a'r camau cysylltiedig.

### Adroddiad Llesiant blynyddol

Caiff adroddiad llesiant blynyddol ei gyhoeddi o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol ar ôl bob blwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar gynnydd cyfunol ein dangosyddion cenedlaethol tuag at y saith nod llesiant. Cyhoeddir yr adroddiad ar 25 Medi 2017 a bydd ar gael yn <http://llyw.cymru/statistics-and-research/well-being-wales/?lang=cy>

## 9 Atodiad A Arfarnu ein hamcanion (Tachwedd 2016 i Fedi 2017)

Tabl sy'n cymharu amcanion llesiant cychwynol 2016 â'r amcanion llesiant wedi'u diweddarau.

Amcanion llesiant Llywodraeth Cymru	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14
<b>01</b> Cefnogi pobl a busnesau i hybu ffyniant	■			■			●			■	●			●
<b>02</b> Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg					■	●		■	■	■	■	●		■ ●
<b>03</b> Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd				■		■	■	■	●	■	●	■	■	■
<b>04</b> Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol ●							●	●						
<b>05</b> Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb	■	■	■	■				■	■	●		●	■	
<b>06</b> Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell	■		■	●			●	■					■	
<b>07</b> Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial	■	■	■	●	■	●		■		●	●		■	
<b>08</b> Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw		■	■	■						■				
<b>09</b> Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid		■		■		●		●		■				■
<b>10</b> Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth	■	●			■	●	■	■			■		■	
<b>11</b> Darparu seilwaith modern a chysylltiedig			■	●				■	■	■	●	●	●	
<b>12</b> Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd											●			■

■ Yn nodi lle mae'r amcanion llesiant wedi'u diweddarau (2017) yn berthnasol i'r un materion â'r amcanion llesiant blaenorol (2016).

● Yn nodi lle y gallai'r amcanion llesiant (2017) fynd i'r afael â'r materion a gafodd eu cynnwys gan yr amcan llesiant blaenorol.

### Amcanion llesiant (Tachwedd 2016)

- |  |   |   |
|--|---|---|
| <b>1</b> Creu'r amodau a all roi'r dechrau gorau posibl i fywyd pob plentyn.                                     | <b>6</b> Cefnogi'r broses o newid i fod yn gymdeithas garbon isel a all ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.  | <b>11</b> Hyrwyddo a meithrin diwylliant a threftadaeth Cymru.  |
| <b>2</b> Gwella deilliannau addysg i bawb a lleihau'r bwlch rhwng deilliannau gwahanol grwpiau.                  | <b>7</b> Cysylltu cymunedau drwy gyfrwng seilwaith gynaliadwy a chryf.  | <b>12</b> Rheoli, defnyddio a gwella adnoddau naturiol Cymru i gefnogi llesiant hirdymor.   |
| <b>3</b> Helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol, trechu tlodi ac anghydraddoldeb a hybu gweithlu iach.      | <b>8</b> Cefnogi cymunedau diogel, cydlynus a chryf.  | <b>13</b> Hwyluso gwasanaethau cyhoeddus safonol, ymatebol a mwy integredig, yn enwedig i'r rheini sydd eu hangen fwyaf, gan drin y dinesydd fel partner cydradd. |
| <b>4</b> Cynyddu ffyniant i bawb ledled Cymru, gan helpu pobl i gael gwaith a chynnal swyddi.                    | <b>9</b> Ei gwneud yn haws cael cartrefi diogel, effeithlon a fforddiadwy.  | <b>14</b> Sefydlu Cymru fel gwlad uchelgeisiol sy'n edrych tuag allan ac sy'n ymwneud â'r byd ehangach.   |
| <b>5</b> Creu'r amodau i bobl allu dysgu a defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gwaith. | <b>10</b> Meithrin amodau ar gyfer datblygiad economaidd cynaliadwy a swyddi cynaliadwy, gan ysgogi arloesedd a thwf er mwyn sicrhau economi fodern, garbon isel. |   |

